Adroddiad ar Geisiadau a Dyfarniadau yn y Deyrnas Unedig ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau

(Mehefin 2015-Mai 2016)

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno trosolwg ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig ers ei lansio ym mis Mehefin 2013, gan roi sylw penodol i'r cyfnod o'i roi ar waith rhwng mis Mehefin 2015 a mis Mai 2016. Ceir yma amlinelliad o berfformiad gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais am Achrediad, sef eu perfformiad yn erbyn y safon ar lefel y modiwlau ac ar lefel y gofynion, gan fod yn ddangosydd rhagarweiniol i'r meysydd mwyaf cadarn ar draws archifau'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r meysydd hynny sydd ag anghenion datblygu parhaus.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ganlynol:

1) Nifer y ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig
2) Nifer y gwasanaethau archifau a dderbyniodd Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig
3) Y ceisiadau yn ôl math o wasanaeth archif
4) Ymweliadau dilysu a wnaed gan gyrff asesu
5) Y cyflawni a wnaed ar lefel y modiwlau
6) Y cyflawni a wnaed ar lefel y gofynion
7) Dadansoddiad o gamau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu i wella

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm y ceisiadau a adolygwyd ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau gan Banel Achredu Gwasanaeth Archifau. Nid yw'n cynnwys ceisiadau a ohirwyd gan Banel, heblaw am yn Adrannau 1 i 3 yr adroddiad (sef Nifer y Ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau ar draws y Deyrnas Unedig), oherwydd nid oes gan y ceisiadau hynny ganlyniad neu lefel asesiad wedi'u cadarnhau. Yn 2015-16 derbyniwyd amrywiaeth o geisiadau o dair o wledydd y Deyrnas Unedig, sef Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r atodiad yn cynnwys gwybodaeth ystadegol bellach ynghylch yr Achrediad Gwasanaeth Archifau ar gyfer 2013 hyd at fis Mai 2015, at ddibenion cyfeirio, pan nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhrif destun yr adroddiad.

1) Nifer y ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau

	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Mai 2014)	14	12	0	1	1
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2014 i Mai 2015)	14	10	0	2	2
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2015 i Mai 2016)	**20**	**15**	**0**	**2**	**3**
Cyfanswm Nifer y Ceisiadau (2013 i Mai 2016)	48	37	0	5	6

Ers lansio'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ym mis Mehefin 2013, mae 48 o wasanaethau archifau wedi cwblhau cais ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau ar draws y Deyrnas Unedig – 37 yn Lloegr, pump yn yr Alban a chwech yng Nghymru.

Mae cyfanswm nifer y ceisiadau ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer 2015-16 wedi cynyddu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gyda chynnydd yn nifer y ceisiadau i gyrff asesu yng Nghymru a Lloegr ill dau.

Mae'r ffigyrau ar gyfer Mehefin 2015 i fis Mai 2016 (Lloegr) yn cynnwys cais a gafodd ei ohirio yn flaenorol o'r cyfnod Mehefin 2014 i fis Mai 2015. Mae'r ffigyrau am y cyfnod Mehefin 2015 i fis Mai 2016 hefyd yn cynnwys cais newydd arall a gafodd ei ohirio gan Banel Achredu. Gall y Panel gynghori gohirio cais os yw'r gwasanaeth archifau yn mynd trwy gyfnod o newid mawr, er enghraifft, newid o ran llywodraethu neu newid yn y gwasanaethau y mae'n eu cynnig. Yn yr achos hwn gohiriodd y Panel y cais gan fod y gwasanaeth yn mynd drwy gyfnod o gwtogi sylweddol ar lefel y gwasanaeth y gallai ei gynnig. Cyngor y Panel oedd ailymgeisio ar ôl i'r sefyllfa sefydlogi.

2) Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau

Mae'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn defnyddio graddadwyedd (*scalability*) i nodi'r mathau o wasanaethau archifau sy'n gwneud cais am yr achrediad, ac yn rhoi amlinelliad o'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau archifau o wahanol fath a maint. Yma rydym yn rhannu dadansoddiad o'r mathau o wasanaethau archifau yn ôl y graddadwyedd hyn.

Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau

Mehefin 2015 i Mai 2016	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	0	0	0
Awdurdod lleol math 2	11	9	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	0	0	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	4	2	0	1	1
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	1	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	2	2	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	2	1	0	1	0
Cyfanswm	20	15	0	2	3

(Mae'r ffigyrau'n cynnwys ceisiadau wedi'u gohirio)

Mae ceisiadau o'r gwasanaethau archifau y nodwyd eu bod yn perthyn i'r grŵp *Awdurdod Lleol math 2* (sy'n cynnwys holl Fannau Adneuo awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, hyd yn oed os yw eu daliadau a maint eu cynulleidfa yn gyffredinol yn gymharol fach) yn parhau i gynrychioli canran arwyddocaol o'r holl ymgeiswyr (55%), sydd ychydig yn uwch nag ar gyfer yr un cyfnod yn 2014-2015 (50%).

Sector cyhoeddus arall math 2 yw'r ail grŵp mwyaf ei faint o ran y ceisiadau ac mae'n cynnwys gwasanaethau archifau ledled Lloegr, yr Alban a Chymru. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cyrff cenedlaethol wedi'u ffurfio gan Ddeddfau Seneddol a chyrff eraill sydd â chylch gwaith cenedlaethol yn eu cyfansoddiad neu yn eu disgrifiad o'u daliadau ac, yn yr achos hwn, yn cynrychioli Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a sawl archif prifysgol.

Roedd y ceisiadau eleni yn cynnwys y cyntaf ar y dangosydd graddadwyedd *Sector preifat a'r trydydd sector math 1*. Roedd hwn yn archif o fewn amgueddfa a oedd wedi cymryd rhan yn ystod cyfnod peilot yr Achrediad Gwasanaeth Archifau.

Mae'r *sector preifat a'r trydydd sector* yn parhau i fod y grŵp ceisiadau lleiaf ei faint. Mae'r rhaglen wedi canolbwyntio eleni ar gyfathrebu a chynnig hyfforddiant penodol i gadwrfeydd llai eu maint i'w hannog i weithio gydag Achrediad, os nad i wneud cais ar hyn o bryd.

Mae rhychwant y ceisiadau gan y mathau gwahanol o wasanaethau archifau ledled gwledydd Prydain yn adlewyrchu rhoi'r rhaglen arfaethedig ar waith fesul cam ledled pob un o'r gwledydd. Er enghraifft, i'r Archifau Cenedlaethol (TNA), sef y corff asesu yn Lloegr, mae gwasanaethau archifau awdurdodau lleol sy'n Fannau Adneuo yn grŵp blaenoriaeth yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol, ond caiff gwasanaethau archifau a oedd yn gymwys i gymryd rhan mewn cynlluniau safonol blaenorol hefyd eu hannog i wneud cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd gwasanaethau archifau awdurdodau lleol i wneud cais am achrediad yn unol ag amserlen y cytunwyd arni. Yn yr Alban, mae Cyngor yr Alban ar Archifau (SCA) a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) yn ymdopi â gallu asesu cyfyngedig ym mlynyddoedd cynnar y cynllun.

3) Nifer yr ymweliadau dilysu a gynhaliwyd gan gyrff asesu gwledydd Prydain

Wrth asesu cais ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau, gall cyrff asesu hefyd ymweld â gwasanaeth archif yr ymgeisydd. Mae'r ymweliad hwn yn gyfle i'r asesydd ddilysu elfennau o'r cais, adolygu unrhyw ddogfennaeth nad ydynt yn addas i'w cyflwyno fel rhan o'r cais, a hefyd edrych o amgylch y safle.

Dyma gyrff asesu gwledydd y Deyrnas Unedig:

- Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (MALD), Llywodraeth Cymru i Gymru
- Yr Archifau Cenedlaethol (TNA) i Loegr
- Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (PRONI) i Ogledd Iwerddon
- Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) a Chyngor yr Alban ar Archifau (SCA) i'r Alban

Mehefin 2015 i Mai 2016	TNA	PRONI	NRS/SCA	MALD
Ie	100%	*amherthnasol*	100%	100%
Na	0	*amherthnasol*	0	0

Yng Nghymru a'r Alban mae'r cyrff asesu wedi gwneud ymrwymiad i ymweld â phob un o'r gwasanaethau sy'n gwneud cais, a llwyddwyd i gyflawni hynny. Yn Lloegr, y polisi yw ymweld ag o leiaf 25% o'r gwasanaethau archifau sy'n gwneud cais ym mhob rownd ac, yn hyn o beth, mae'r Archifau Cenedlaethol wedi cyflawni 100% o ymweliadau gan y tîm asesu, oherwydd nifer cymharol fach yr ymgeiswyr yn ystod y cyfnod hwn a'r angen i hyfforddi'r timau asesu ac adolygu cyfoedion. Bydd canrannau'r ymweliadau safle yn gostwng i rai cyrff asesu o ddiwedd 2016 wrth i Wasanaethau Archifau Achrededig ddechrau cyrraedd y cam cofrestru (*check-in*) ac nad oes angen ymweld â phob safle mwyach.

Nifer y gwasanaethau archif yn cael statws achrededig

Panel Achredu Gwasanaeth Archifau sy'n dyfarnu Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae tri chanlyniad posibl:

- Achrediad: Mae'r gwasanaeth archifau wedi dangos ei fod yn cyflawni'r safon
- Achrediad Dros Dro: Mae'r gwasanaeth archifau yn agos at gyflawni gofynion y safon. Dyfernir Achrediad Dros Dro am gyfnod o hyd at ddwy flynedd, er mwyn rhoi sylw i un neu ddau o feysydd datblygiad pwysig.
- Dim Achrediad: Mae angen i'r gwasanaeth archifau ddatblygu mewn meysydd arwyddocaol cyn cyflawni'r safon.

Mehefin 2015 i Mai 2016	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	18	13	0	2	3
Achrediad Dros Dro	1	1	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

Dyfarnwyd achrediad llawn i 18 o wasanaethau archifau gan Banel Achredu Gwasanaeth Archifau ac fe gafodd un gwasanaeth archifau achrediad dros dro.

Cymeradwyodd Panel Achredu Gwasanaethau Archifau Gorffennaf 2015 hefyd y newid o statws achrededig dros dro i statws achrededig llawn i wasanaeth archifau a ddaeth gerbron panel cynharach.

Mae cyfanswm y gwasanaethau archifau a dderbyniodd achrediad rhwng 2013 a mis Mai 2016 yn atodiad A.

4) Cyflawni ar lefel modiwlau'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

Asesir pob ymgeisydd yn gyffredinol ym mhob un o dri modiwl y safon Achredu, yn ogystal ag asesiad manwl yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad. Byddai 'Heb ei Gyflawni' mewn unrhyw fodiwl yn golygu y byddai'n amhosibl dyfarnu Achrediad.

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	18	1	0
Casgliadau	18	1	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	18	1	0

Llwyddodd 18 o'r gwasanaethau archifau a achredwyd i gyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Iechyd Sefydliadol. Yn achos y gwasanaeth archifau a lwyddodd i rannol gyflawni'r safon teimlwyd bod gostyngiadau staffio wedi golygu mai cyfyngedig oedd gallu'r gwasanaeth archifau bellach i gyflawni er bod y gwasanaeth ar y safle yn parhau i fod yn effeithiol.

Llwyddodd 18 o'r gwasanaethau archifau a achredwyd hefyd i gyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Casgliadau. Yn achos y gwasanaeth archifau a lwyddodd i rannol gyflawni'r safon, teimlwyd bod y cyfleuster cyfyngedig nad oedd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ynghyd â chapasiti staff cyfyngedig yn cyfyngu ar ddatblygu yn y maes hwn.

Llwyddodd 18 o'r gwasanaethau archifau a achredwyd hefyd i gyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Rhanddeiliaid a'u Profiadau. Yn achos y gwasanaeth archifau a lwyddodd i rannol gyflawni'r safon, teimlwyd bod y gwasanaeth archifau wedi methu â darparu mynediad ar safon resymol i'w randdeiliaid gan beidio â bod â mynediad uniongyrchol at gatalogau i ymchwilwyr.

5) Cyflawni ar lefel gofynion yr Achrediad Gwasanaeth Archifau

Asesir pob ymgeisydd hefyd yn benodol yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad y safon. Mae hyn yn rhoi modd dadansoddi'n fanylach sut mae gwasanaeth archifau yn perfformio yn erbyn pob elfen o'r safon.

a) Gofynion ar gyfer y Modiwl: Iechyd Sefydliadol

Mae Iechyd Sefydliadol yn edrych ar y meysydd hynny sy'n sail i brosesau hirdymor derbyniadau, cadwraeth a pha mor hygyrch yw casgliadau archifau.

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	19	0	0
1.2 Llywodraethu	18	1	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	18	1	0
1.4 Adnoddau: Adeiladau	15	4	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	19	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	17	2	0

Aseswyd bod pob un o'r 19 gwasanaeth yn cyflawni dau o'r chwe gofyniad yn llawn. Y gofynion hyn yw **1.1 Datganiad Cenhadaeth** ac **1.5 Adnoddau: Cyllid.**

O ran gofyniad **1.4 Adnoddau: Adeiladau** roedd 79% wedi cyflawni'r gofyniad hwn yn llawn. Pan nad oedd gwasanaethau archifau yn cyflawni'r gofyniad hwn, roedd hyn oherwydd diffyg lle i ehangu ar gyfer storio casgliadau – boed yn analog neu'n ddigidol – ac mewn rhai achosion diffyg gofod i gael ystafell ddarllen neu swyddfa gefn.

Aseswyd bod 18 o'r 19 (95%) o'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais yn cyflawni gofynion **1.2 Llywodraethu** a **1.3 Cynllunio Ymlaen** yn llawn. O ran **1.2 Llywodraethu**, teimlwyd mai prin oedd y cyfleoedd i roi adroddiadau am fusnes parhaus i uwch swyddogion yn y gwasanaeth archifau a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn. O ran gofyniad **1.3 Cynllunio Ymlaen**, teimlwyd y dylai'r gwasanaeth archifau a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn gynnwys datblygiadau strategol mawr yn y dyfodol wrth gynllunio ymlaen.

Aseswyd bod 89% o'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais yn llawn gyflawni'r gofyniad **1.6 Adnoddau: Gweithlu**. Yn achos y ddau wasanaeth archifau a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn, teimlwyd bod y capasiti staff wedi'i ymestyn yn sylweddol mewn perthynas â'r ystod o weithgareddau a wneir gan y gwasanaethau.

2013 i fis Mai 2016

	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	46	0	0
1.2 Llywodraethu	44	2	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	42	4	0
1.4 Adnoddau: Adeiladau	36	10	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	46	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	44	2	0

Y gofyniad **1.4 Adnoddau: Adeiladau** sy'n parhau i fod y maes gwannaf, ac am y tro cyntaf aseswyd bod dau wasanaeth archif yn rhannol gyflawni'r gofyniad **1.6 Adnoddau: Gweithlu**.

O ran gwasanaethau lle gohirwyd penderfyniadau, ac felly nad ydynt wedi'u cyfrif yn y dadansoddiad hwn, mae'n werth gwneud yn glir yr ystyriwyd bod gwendid allweddol yn ymwneud â gofyniad **1.5 Adnoddau: Cyllid**, a diffyg eglurder neu leihad sylweddol yn y maes hwn.

b) **Gofynion ar gyfer y Modiwl: Casgliadau**

Mae'r modiwl Casgliadau yn archwilio gallu gwasanaeth archifau i ddatblygu casgliadau, ac i ofalu a chadw gwybodaeth amdanynt.

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
2.1 Rheoli Casgliadau	16	3	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	19	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	13	6	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	18	1	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	12	7	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	19	0	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	16	3	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	19	0	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	9	10	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	18	1	0

Yn y modiwl hwn, aseswyd bod pob un o'r 19 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais yn cyflawni'r gofyniad **2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau**, gan adlewyrchu'r mabwysiadu eang ar bolisïau casglu ar draws y sector.

Roedd 68% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau.** Roedd diffyg lle i ehangu, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i fynd ati'n rhagweithiol i gasglu, yn fater allweddol i'r gwasanaethau archifau eraill. Roedd materion eraill yn cynnwys diffyg trosglwyddo cofnodion busnes allweddol, gan gynnwys mecanwaith trosglwyddo ar gyfer cofnodion wedi'u geni yn ddigidol, cynllunio cyfyngedig o ran gweithredu'r Polisi Datblygu Casgliadau, ac angen mynd ati i nodi bylchau a gwendidau yn y casglu a wneir ar hyn o bryd. Aseswyd bod 84% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **2.1 Rheoli Casgliadau**. Yn achos y gwasanaethau archifau hynny a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn teimlwyd y byddai datganiad cyffredinol ar reoli casgliadau yn dwyn ynghyd y gweithgareddau rheoli casgliadau o fewn y gwasanaeth.

Aseswyd bod 95% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau.** Mae gan y gwasanaeth archifau a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn gynlluniau catalogio yn seiliedig ar safonau yn hytrach na Pholisi Gwybodaeth am Gasgliadau, yn debyg i enghreifftiau a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Aseswyd bod 63% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau**. Roedd asesiad o rannol gyflawni fel arfer yn adlewyrchu lefel ôl-groniadau (*backlog*) arbennig o heriol i'r gwasanaeth. O safbwynt gweithdrefnau, roedd y gwasanaethau a gyflwynodd gais yn gryf.

Yn y maes gofalu am gasgliadau, roedd y gwasanaethau a gyflwynodd gais yn gyffredinol yn ymwybodol iawn pan oedd cyfyngiadau ar ansawdd y gadwraeth y gallent ei chynnig. Mae asesiad o rannol gyflawni o ran polisi ac/neu weithdrefnau yn yr adran hon yn adlewyrchu rheolaeth effeithiol barhaus ar storio a allai achosi problemau, gan gynnwys systemau rheoli adeiladau. Mae'r Panel Achredu wedi gosod hyn yn gynsail.

2013 i fis Mai 2016

2013 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	42	4	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	45	1	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	34	12	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	35	11	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	30	16	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	44	2	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	40	5	1
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	41	5	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	26	19	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	44	2	0

Ers lansio'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ym mis Mehefin 2013, mae'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais wedi dangos cryfder mewn rheoli casgliadau yn gyffredinol, ar lefel polisi yn Datblygu Casgliadau a Gofalu am Gasgliadau, yn y Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau ac yn y Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb.

Mewn llawer o achosion, diffyg lle i ehangu sy'n rhwystro mynd ati'n rhagweithiol i gasglu a hynny wedi'i adlewyrchu yn yr asesiad cyffredinol ar gyfer y gofyniad **2.2.2 Cynlluniau Datblygu Casgliadau**.

Mae'r ôl-groniadau sylweddol yn y catalogio yn cael eu hadlewyrchu eto yn natur yr asesiadau o dan gofyniad **2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau**.

Aseswyd bod 56% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau**. Pan oedd gwasanaethau archifau wedi methu â chyflawni'r gofyniad hwn yn llawn, roedd hyn oherwydd problemau parhaus ag amodau amgylcheddol yn y cadwrfeydd, gan gynnwys rhywfaint o risg o ddŵr yn dod mewn mewn rhai achosion.

c) Gofynion ar gyfer y Modiwl: Rhanddeiliaid a'u Profiadau

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar allu gwasanaeth archifau i ddarparu a datblygu mynediad at ei gasgliadau, mewn ymateb i anghenion ei gymuned.

Mehefin 2015 i fis Mai 2016

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	16	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	16	3	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	15	4	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	18	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	17	2	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	19	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	18	1	0

Roedd pob un o'r 19 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr.** Mae hyn yn unol â'r disgwyliadau fod y mwyafrif helaeth o wasanaethau archifau wedi sefydlu dulliau arferol i ddefnyddwyr fedru edrych ar ddefnyddiau gwreiddiol.

Roedd 79% o'r gwasanaethau archifau wedi cyflawni'r gofyniad **3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd**. Teimlwyd nad oedd gan y gwasanaethau archifau hynny a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni o dan y gofyniad hwn ddigon o fecanweithiau ar waith i gasglu adborth i fwydo i mewn i ddatblygiad parhaus y gwasanaeth neu gynulleidfaoedd newydd. Yn yr un modd, yn achos **3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd**, teimlwyd nad oedd y gwasanaethau archifau a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r is-ofyniad hwn yn casglu digon o wybodaeth am anghenion rhai o'u grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft defnyddwyr posibl y gwasanaeth archifau neu ddefnyddwyr eu gwasanaethau ar-lein.

Pan aseswyd fod gwasanaethau archifau yn rhannol gyflawni'r gofyniad **3.1 Polisi Mynediad** roedd hyn o ganlyniad i nifer o wahanol resymau, er enghraifft diffyg polisi unigol yn arwain at ddiffyg eglurder posibl i ddefnyddwyr, cyfyngiadau ar y wybodaeth a gyhoeddir ar y wefan, neu bolisi wedi dyddio.

2013 i Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	40	6	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	42	4	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	41	5	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	44	2	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	44	2	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	45	1	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	45	1	0

Gellir egluro ehangder y gofynion ac is-ofynion a aseswyd ar ffurf y sylwebaeth uchod. Yn achos gofyniad 3.1 Polisi Mynediad, o ran gwasanaethau archifau a gyflawnodd y gofyniad hwn yn rhannol, roedd hyn oherwydd bod y polisi angen cymeradwyaeth ffurfiol, yr angen i gynnwys cyfyngiadau mynediad yn y polisi mynediad, diffyg polisi mynediad cyffredinol, neu'r angen i adolygu'r polisi mynediad yn sgil dyheadau presennol y gwasanaeth archifau.

7) Camau Gweithredu Gofynnol a Chamau Gweithredu i Wella

Mae pob gwasanaeth archifau yn cael adborth ar eu cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau, a'r adborth hwnnw yn dangos sut mae eu gwasanaeth archifau yn perfformio yn erbyn pob un o ofynion y safon. Mae rhan o'r adborth hwn ar ffurf camau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu i wella, sy'n darparu arweiniad ar sut y gall y gwasanaeth gyflawni'r safon yn fwy llwyddiannus. Mae'n rhaid cyflawni Camau Gweithredu Gofynnol er mwyn parhau i gyflawni'r safon a chadw'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn y dyfodol. Mae'r Camau Gweithredu i Wella yn cefnogi gwaith datblygu'r gwasanaeth archifau.

Yn ôl y gofynion

Mehefin 2015 i Mai 2016	Camau Gweithredu Gwella	Camau Gweithredu Gofynnol
1.1	3	1
1.2	3	3
1.3	4	3
1.4	17	9
1.5	6	0
1.6	6	3
2*	1	0
2.1	8	0
2.2.1	7	0
2.2.2	5	1
2.3*	3	1
2.3.1	0	0
2.3.2	7	2
2.3.3	0	0
2.4*	7	0
2.4.1	1	2
2.4.2	3	1
2.4.3	6	11
2.4.4	2	3
3.1	9	1
3.2*	5	0
3.2.1	8	1
3.2.2	3	1
3.2.3	5	1
3.3*	2	1
3.3.1	1	0
3.3.2	0	2
3.3.3	3	0

*Sylwer bod rhai camau gweithredu yn adlewyrchu angen cyffredinol i wella mewn maes megis gofalu am gasgliadau neu gynllunio cynulleidfa, a gellir eu gosod ar lefel gofyniad yn hytrach nag is-ofyniad.

Yn ôl modiwl

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Camau Gweithredu i Wella	Camau Gweithredu Gofynnol
Iechyd Sefydliadol	39	19
Casgliadau	50	21
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	37	6

a) **Camau gweithredu gofynnol:**

Themâu cyffredin

- *Datblygu gofod storio newydd a gwella'r amodau amgylcheddol yn yr ardaloedd storio*
- *Datblygu'r gallu i amlyncu a storio cofnodion wedi'u geni yn ddigidol*

Iechyd Sefydliadol: Yn y maes hwn, roedd y camau gweithredu gofynnol yn cynnwys nifer o themâu gwahanol:

- Yr angen am ofod storio newydd ar gyfer cofnodion analog neu ddigidol (neu'r ddau)
- yr angen i gynnal a chwblhau adolygiad Cytundebau Lefel Gwasanaeth ymysg amryfal bartneriaid ariannu
- cadw a datblygu sgiliau proffesiynol yn barhaus er mwyn gweithredu cynlluniau

Casgliadau: Yn y modiwl hwn y nododd yr aseswyr y nifer uchaf o gamau gweithredu gofynnol. Roedd y camau gweithredu yn cynnwys y meysydd canlynol:

- datblygu gwybodaeth a gallu i gasglu a rheoli cofnodion wedi'u geni yn ddigidol
- cadwraeth a rheoli risgiau mewn storfeydd, yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol, systemau rheoli adeiladau a diogelwch parhaus (mae hyn yn gam gweithredu gofynnol gorfodol i wasanaethau nad oes ganddynt ofod storio sy'n cydymffurfio'n llwyr â PD5454)
- gwella catalogio casgliadau

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Nododd aseswyr y nifer lleiaf o gamau gweithredu gofynnol yn y modiwl hwn. Roedd camau yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- datblygu casglu data i wella dealltwriaeth o gynulleidfaoedd a'u hanghenion
- cyhoeddi polisïau mynediad ar wefannau
- mynd ati i ofyn am brawf hunaniaeth fel rhan o broses gofrestru

Camau gweithredu i wella:

Themâu cyffredin

- *Adeiladu ar ddatblygiadau cadwraeth ddigidol*
- *Gwella trosglwyddo cofnodion o riant-sefydliad*
- *Gwella dulliau storio a chadw ar gyfer y gwasanaeth archifau*
- *Datblygu'r arlwy o ran mynediad gan gynnwys allgymorth a dysgu, yn enwedig drwy ymchwilio i'r gynulleidfa*
- *Datblygu gwybodaeth ar-lein a mynediad o bell, yn cynnwys y catalog*
- *Adolygu polisïau a'u cyhoeddi ar y wefan*

Mae camau gweithredu i wella yn tueddu i fod yn eithaf amrywiol ac yn aml yn fwy penodol i wasanaethau archifau unigol a'u hamgylchiadau. Er hynny mae rhai tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Iechyd Sefydliadol: Nodwyd nifer o gamau gweithredu gwella gan yr aseswyr yn y modiwl hwn, a'r rheiny'n cwmpasu holl ofynion y modiwl hwn yn y themâu canlynol: datblygu'r datganiad cenhadaeth; adolygu prosesau cynllunio; gwahanol gyllid drwy gyllid allanol a chynhyrchu incwm; datblygu gwirfoddoli yn gynaliadwy. Mae nifer sylweddol yn ymwneud â gofyniad 1.4 gyda storio, ystafelloedd cadw a chadwraeth ddigidol yn bwyntiau gweithredu a oedd yn ymddangos dro ar ôl tro.

Casgliadau: Rhestrodd aseswyr y nifer uchaf o gamau gweithredu i wella gwasanaethau archifau mewn perthynas â gofynion yn y modiwl hwn (sydd â'r nifer uchaf o ofynion). Mae'r gweithredu yn ymwneud â datblygu neu adolygu polisïau rheoli casgliadau; gwella trosglwyddo cofnodion o'r rhiant-sefydliad; arallgyfeirio themâu casglu; datblygu'r catalog ar-lein a lleihau ôl-groniadau catalogio; parhau i ddatblygu capasiti cadwedigaeth ddigidol; profi cynlluniau trychineb; rheoli'r amgylchedd cadwraeth a datrys materion yn ymwneud â'r system rheoli adeiladau.

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Nodwyd y nifer lleiaf o gamau gweithredu i wella yn y modiwl hwn gan yr aseswyr. Roeddynt yn cynnwys y themâu canlynol: adolygu polisi mynediad a chyhoeddi polisïau ar-lein; datblygu mynediad at gofnodion digidol; datblygu gweithgareddau dysgu ac allgymorth; datblygu ac ymchwil cynulleidfa – yn fewnol, allanol, ar-lein, cyfredol a newydd; datblygu cydweithio i gryfhau cyrhaeddiad gwasanaethau archifau; datblygu mynediad ar-lein i gasgliadau.

Atodiad

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ychwanegol am yr Achrediad Gwasanaeth Archifau at ddibenion cyfeirio, sef gwybodaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau a dderbyniwyd o 2013 i fis Mai 2014 a Mehefin 2014 i fis Mai 2015. Gallai fod yn ddefnyddiol cymharu'r wybodaeth ystadegol sydd yma â'r wybodaeth ystadegol sydd yn y prif adroddiad.

1 Ceisiadau yn ôl math o wasanaeth archifau

2013 i fis Mai 2014	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	1	0
Awdurdod lleol math 2	6	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 1	1	0	0	1
Sector cyhoeddus arall math 2	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	0	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	3	0	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	0	0
Awdurdod lleol math 2	5	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	0	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	3	0	2	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	0	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	0	0	0	0

2) Ymweliadau dilysu a wnaed mewn ymateb i geisiadau

2013 i Mai 201	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
2013 –Mai 2014	93%	*amherthnasol*	100%	100%
Mehefin 2014 i Mai 2015	100%	*amherthnasol*	100%	100%

3) Nifer y gwasanaethau archifau yn cael statws achrededig

2013 i Mai 2014	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	12	10	0	1	1
Achrediad Dros Dro	2	2	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

Mehefin 2014 i Mai 2015	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	12	8	0	2	2
Achrediad Dros Dro	0	0	0	0	0
Dim Achrediad	1	1	0	0	0

2013 i fis Mai 2016	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	42	31	0	5	6
Achrediad Dros Dro	3	3	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

4) Cyflawni ar lefel modiwl

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	14	0	0
Casgliadau	11	3	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	14	0	0

Mai 2014 i Mehefin 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	13	0	0
Casgliadau	11	1	1
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	13	0	0

5) Cyflawni ar lefel gofynion

Iechyd Sefydliadol

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	14	0	0
1.2 Llywodraethu	14	0	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	12	2	0
1.4 Adnoddau: Adeiladau	12	2	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	14	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	13	0	0
1.2 Llywodraethu	12	1	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	12	1	0
1.4 Adnoddau: Adeiladau	9	4	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	13	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	13	0	0

Casgliadau

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	13	1	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	10	4	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	7	7	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	12	2	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	8	6	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	13	0	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	0	0

2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	8	5	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	7	6	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	11	2	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	13	0	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	0	1
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	10	3	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	9	3	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	12	1	0

Rhanddeiliaid a'u profiadau

2013 i fis Mai 2014	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	11	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	14	0	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	1	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	13	0	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	13	0	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	13	0	0

6 Camau Gweithredu Gofynnol a Chamau Gweithredu i Wella ar Lefel Gofynion

2013 i Mai 2014	Camau gweithredu gofynnol a bennwyd	Camau gweithredu gwella a bennwyd
1.1	1	1
1.2	1	3
1.3	0	4
1.4	0	11
1.5	0	4
1.6	1	6
2.1	0	4
2.2.1	1	0
2.2.2	0	2
2.3.1	1	2
2.3.2	0	1
2.3.3	0	0
2.4.1	1	3
3.1	0	8
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	0	3
3.3.1	0	1
3.3.2	2	3
3.3.3	0	3

Mehefin 2014 i Mai 2015	Camau gweithredu gofynnol a bennwyd	Camau gweithredu gwella a bennwyd
1.1	0	0
1.2	0	4
1.3	2	0
1.4	8	15
1.5	0	1
1.6	0	4
2.1	0	3
2.2.1	0	4
2.2.2	1	8
2.3.1	0	5
2.3.2	1	2
2.3.3	0	1
2.4	3	7
2.4.1	0	3
2.4.2	3	0
2.4.3	2	2
2.4.4	4	0
3.1	0	4
3.2.1	0	0

3.2.2	0	0
3.2.3	0	2
3.3.1	0	3
3.3.2	0	2
3.3.3	0	2